# AMSERLEN A CHANLLAW CAM WRTH GAM I DREFNU 2024

cardiff.ac.uk/cy/professional-development

# Sut i gadw lle

**Mae dwy ffordd y gallwch ddewis prynu'ch PSRAS/PSQ. Rydym wedi creu nifer o becynnau i'ch helpu i ennill achrediad. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau a chyrsiau hyfforddi.**

Os yw'n well gennych, gallwch brynu cyrsiau hyfforddi ac asesiadau ar sail talu wrth fynd. Peidiwch ag anghofio, pan fyddwch chi'n prynu un o'n pecynnau, rydych chi'n arbed arian yn erbyn cost prynu elfennau yn unigol.

### Pecynnau

Mae ein pecynnau wedi'u cynllunio i'ch helpu i ennill achrediad PSRAS/PSQ.

Mae pob pecyn yn cynnwys yr holl asesiadau y mae angen i chi eu cwblhau, yn ogystal â chyrsiau hyfforddi amrywiol. Mae yna becynnau gwahanol yn ôl a ydych wedi'ch eithrio o'r arholiad ysgrifenedig*.

**Sut i brynu pecyn**

1. Ewch i'n gwefan a dewis pa becyn yr hoffech ei brynu.

2. Cliciwch ar y ddolen i ychwanegu'r pecyn at eich basged siopa. Bydd hyn yn rhoi taleb i chi sy'n cynnwys cost y gwahanol elfennau yn eich pecyn.

3. Gofynnir i chi ychwanegu'r Ardoll SRA (£20) at eich basged siopa. Os nad ydych wedi talu hwn i ddarparwr arall o'r blaen, ychwanegwch hi at eich basged. (Sylwch, byddwn yn gofyn am brawf o daliad blaenorol ar ôl i chi gofrestru).

4. Crëwch gyfrif gyda ni (neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol), a thalu am eich taleb. Y dull hawsaf a chyflymaf yw talu â cherdyn credyd. Os byddai'n well gennych dalu drwy anfoneb, byddwn yn gofyn am gopi o'ch archeb brynu. Ni chadarnheir eich archeb nes y derbynnir hyn ac ni fyddwch yn gallu symud ymlaen i gam 5.

5. Unwaith y bydd eich archeb wedi'i chadarnhau, byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif ar unrhyw adeg i archebu a rheoli'r holl gyrsiau ac asesiadau o'ch dewis, yn ogystal â dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol.

### Talu wrth fynd

Os yw'n well gennych, gallwch brynu cyrsiau ac asesiadau ar wahân.

Efallai eich bod eisoes wedi cwblhau rhai elfennau o'r PSRAS, neu fod angen i chi ail-wneud asesiad penodol.

Rydym yn cynnig pob elfen o'r PSRAS ar sail talu wrth fynd (cofiwch nad ydych yn derbyn gostyngiad os ydych yn prynu elfennau ar wahân).

**Sut i brynu eitem talu wrth fynd**

1. Ewch i'n gwefan a dewis pa gwrs neu asesiad yr hoffech ei brynu.

2. Cliciwch ar y ddolen i ychwanegu'r eitem i'ch basged siopa.

3. Gofynnir i chi ychwanegu'r Ardoll SRA (£20) at eich basged siopa. Os nad ydych wedi talu hwn i ddarparwr arall o'r blaen, ychwanegwch hi at eich basged. (Sylwch, byddwn yn gofyn am brawf o daliad blaenorol ar ôl i chi gofrestru).

4. Crëwch gyfrif gyda ni (neu fewngofnodi i'ch cyfrif presennol), a thalu am eich taleb. Y dull hawsaf a chyflymaf yw talu â cherdyn credyd. Os byddai'n well gennych dalu drwy anfoneb, byddwn yn gofyn am gopi o'ch archeb brynu. Ni chadarnheir eich archeb nes y derbynnir hyn ac ni fyddwch yn gallu symud ymlaen i gam 5.

5. Unwaith y bydd eich archeb wedi'i chadarnhau, byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif ar unrhyw adeg i archebu a rheoli'r holl gyrsiau ac asesiadau o'ch dewis, yn ogystal â dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol.

***Eithriad rhag sefyll yr arholiad ysgrifenedig**

*Rydych wedi'ch eithrio o'r arholiad ysgrifenedig os oes gennych unrhyw rai o'r canlynol:*
*LPC (Cwrs Ymarfer Cyfreithiol)*
*BTC (Cwrs Hyfforddiant yBar)*
*neu ei ragflaenydd.*

*Neu os ydych chi:*
*Yn Gymrawd neu'n Aelod o Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol a'ch bod wedi pasio llwybr troseddol Diploma yn y Gyfraith ac Ymarfer Lefel 6 CILEX (a elwid gynt yn Ddiploma Uwch yn y Gyfraith Lefel 6 CILEX ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys cyfraith droseddol ac ymgyfreitha troseddol).*

*Rhaid i chi ddangos prawf o'r cymwysterau uchod er mwyn elwa o'r eithriad.*

# Pecynnau

**Rydym wedi creu nifer o becynnau i'ch helpu i ennill achrediad PSRAS.**

### Llwybr 1 Route 1

**Mae'r pecynnau hyn yn addas ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau LPC, BTC neu Ddiploma yn y Gyfraith Lefel 6 CILEX, gan gynnwys cyfraith droseddol ac ymgyfreitha troseddol.**

**HOLLGYNHWYSOL**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y ddau asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster PSRAS, yn ogystal â dau gwrs hyfforddi cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i basio'r asesiadau:

Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi portffolio
Cwrs hyfforddi CIT

**PECYN 2**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl brofion gofynnol, a'r cwrs hyfforddi CIT:

Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi CIT

### Llwybr 1 Route 2

**Mae'r pecynnau hyn yn addas ar gyfer y rhai sydd ag ychydig neu ddim hyfforddiant neu gefndir cyfreithiol a'r rhai nad ydynt wedi'u heithrio rhag sefyll yr arholiad ysgrifenedig.**

**HOLLGYNHWYSOL**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y ddau asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster PSRAS, yn ogystal â phedwar cwrs hyfforddi cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i basio'r asesiadau:

Arholiad ysgrifenedig
Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi cyflwyniad i gyfraith droseddol
Cwrs hyfforddi arholiadau
Cwrs hyfforddi portffolio
Cwrs hyfforddi CIT

**PECYN 2**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl brofion gofynnol a dau gwrs hyfforddi ategol (CIT a phortffolio):

Arholiad ysgrifenedig
Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi portffolio
Cwrs hyfforddi CIT

**PECYN 3**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl brofion gofynnol a'r cwrs hyfforddi CIT:

Arholiad ysgrifenedig
Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi CIT

### PSQ

**Mae'r pecynnau hyn yn addas ar gyfer y rhai sydd wedi cwblhau LPC, BTC neu Ddiploma yn y Gyfraith Lefel 6 CILEX, gan gynnwys cyfraith droseddol ac ymgyfreitha troseddol*.**

**HOLLGYNHWYSOL**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y ddau asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster PSQ, yn ogystal â dau gwrs hyfforddi cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i basio'r asesiadau:

Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi portffolio
Cwrs hyfforddi CIT

**PECYN 2**
Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y Prawf Digwyddiadau Critigol, y Portffolio, a'r cwrs hyfforddi CIT:

Portffolio
Prawf Digwyddiadau Critigol (CIT)
Cwrs hyfforddi CIT

***Sylwer: rydym yn argymell bod pob ymgeisydd, waeth beth fo'i brofiad a'i gymwysterau, yn ymgymryd â'r PSRAS yn hytrach na'r PSQ.**

**Sylwer: ni allwch archebu'r CIT nes eich bod wedi cwblhau'r arholiad ysgrifenedig yn llwyddiannus (oni bai eich bod wedi'ch eithrio) a Rhan A Portffolio AC wedi derbyn eich PIN gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.**

## Nodiadau pwysig

Gallwch barhau i fod wedi'ch cofrestru gyda'r LAA am hyd at flwyddyn fel cynrychiolydd ar brawf. Rhaid i chi basio un elfen asesu o fewn chwe mis, a phob un o'r tri asesiad o fewn blwyddyn.

**Os na fyddwch yn cyflawni hyn, byddwch yn cael eich atal rhag gwneud gwaith cymorth cyfreithiol.**

Er mwyn hawlio tâl o'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol, rhaid i chi fod wedi'ch achredu neu fod wedi'ch cofrestru gyda'r LAA fel cynrychiolydd ar brawf. **Nid yw hwn ar gael os dewiswch y llwybr PSQ.**

# Amserlen

**Dyma'r dyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer asesiadau a chyrsiau yn 2024. Sylwer, amserlen ddangosol yw hon a gall newid. Am y wybodaeth ddiweddaraf, cysylltwch â ni drwy ebostio.**

| | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CIT (ar lein) | 23ain<br>25ain | 29ain | 4ydd | 25ain | 7fed | | 17eg<br>23ain | | | 3ydd<br>9fed | 21ain<br>26ain | |
| CIT (wyneb yn wyneb) | | | | | | | 23ain | | | | | |
| Portffolio | 3ydd | 19eg | | 11eg | | 17eg | | 15fed | | | 6ed | |
| Arholiad Ysgrifenedig | 18fed | 26ain | | 22ain | | | 25ain | | | 1af | 20fed | |
| Cyflwyniad i gwrs hyfforddiant cyfraith droseddol | 3ydd a 4ydd (cwrs deuddydd) | 12fed a 13eg (cwrs deuddydd) | | 9fed a 10fed (cwrs deuddydd) | | 5ed a 6ed (cwrs deuddydd) | | | 10fed a 11eg (cwrs deuddydd) | | 4ydd a 5ed (cwrs deuddydd) | |
| Cwrs hyfforddiant arholiadau | 9fed a 10fed (cwrs deuddydd) | 20fed a 22ain (cwrs deuddydd) | | 16eg a 18fed (cwrs deuddydd) | | 11eg a 13eg (cwrs deuddydd) | | | 17eg a 19eg (cwrs deuddydd) | | 12fed a 14eg (cwrs deuddydd) | |
| Cwrs hyfforddi Prawf Digwyddiadau Critigol | 15fed | 15fed | | 15fed | | 25ain | | | 16eg | | 18fed | |
| Cwrs hyfforddiant portffolio | 15fed | 15fed | | 5ed | | 25ain | | | 16eg | | 18fed | |

# UNRHYW GWESTIYNAU?

**cardiff.ac.uk/cy/professional-development**

## Sut i gadw lle

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i drefnu, cysylltwch â:

+44 (0)29 2087 5274
train@caerdydd.ac.uk

## Cwestiynau PSRAS/PSQ

Os oes gennych chi gwestiynau am y cynllun(iau), cysylltwch â:

+44 (0)29 2087 6948
law-PDU@caerdydd.ac.uk